

Adolygiad Cenedlaethol o'r Defnydd o Drefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid (DOLS) Yng Nghymru 2014

Cyngor Sir Dinas a
Sir Caerdydd
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro

9 – 11 Ebrill 2014

Gall y cyhoeddiad hwn gael i ei ddarparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd ychydig o oedi wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copi o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Swyddfeydd
Cenedlaethol AGGCC
Swyddfeydd y
Llywodraeth
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tydful
CF48 1UZ**

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tydful
CF48 1UZ**

Neu trwy'r canlynol:

Ffôn: 0300 7900 126
Ebost: aggcc@cymru.gsi.gov.uk
Gwefan: www.aggcc.org.uk
Gwefan y Gydarolygiaeth: www.inspectionwales.com

Ffôn: 0300 062 8163
Ebost: hiw@cymru.gsi.gov.uk
Gwefan: www.hiw.org.uk

**ADOLYGIAD CENEDLAETHOL O'R
DEFNYDD O'R TREFNIADAU DIOGELU
RHAG COLLI RHYDDID YNG NGHYMRU
2014**

**Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
9 – 11 Ebrill 2014**

Adolygiad Cenedlaethol

Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn darparu'r fframwaith statudol ar gyfer gweithredu a gwneud penderfyniadau ar ran pobl sydd â diffyg galluedd i wneud penderfyniadau drostynt hwy eu hunain. Cafodd y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid eu cyflwyno'n ddiweddarach i ddarparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer sefyllfaoedd lle mae rhywun o bosibl yn colli ei ryddid o fewn ystyr erthygl 5 yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Gellir cymhwyso'r trefniadau diogelu i unigolion dros 18 oed sydd ag anhwylder meddwl ac nad ydynt yn meddu ar y gallu gwybyddol (galluedd meddyliol) i wneud penderfyniadau drostynt hwy eu hunain.

Mae'r adroddiad hwn yn darparu trosolwg o'r defnydd o drefniadau diogelu rhag colli rhyddid yn yr Awdurdod Lleol (ALI) a'r Bwrdd Iechyd Prifysgol (BIP) hwn. Cafodd y gwaith maes ei gwblhau fel rhan o arolygiad thematig cenedlaethol Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) o'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yng Nghymru. Cynhaliwyd yr arolygiad yn fuan wedi i'r Goruchaf Lys roi dyfarniad yn achos P a Gorllewin Swydd Gaer sydd wedi cyfrannu at gynnydd mewn ceisiadau dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

Roedd yr adolygiad cenedlaethol yn cynnwys arolwg o bob BILL ac awdurdod lleol a 3 diwrnod o waith maes a gynhaliwyd mewn 7 awdurdod lleol ac yn yr holl BILLau rhwng mis Ebrill a mis Mai 2014. Bydd canfyddiadau o'r arolygiadau unigol yn goleuo adroddiad trosolwg cenedlaethol gan AGGCC/AGIC.

Roedd yr amcanion fel a ganlyn: -

- Canfod a yw'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn effeithiol o ran cadw pobl yn ddiogel ac nad yw unigolion yn colli eu rhyddid yn ddiangen neu heb i drefniadau diogelu priodol gael eu rhoi ar waith.
- Adolygu'r modd y mae'r Cod Ymarfer ar gyfer y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn cael ei weithredu'n ymarferol a phenderfynu pa un a ddylid diwygio a diweddarau'r canllawiau.
- Ymchwilio i'r hyn sy'n cyfrannu at anghysonderau o ran defnyddio Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ar draws yr ALLau a'r BILLau yng Nghymru.
- Canfod a yw ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn meddu ar yr ymwybyddiaeth, yr wybodaeth a'r sgiliau i gyflawni eu priod gyfrifoldebau i gymhwyso a rheoli Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn effeithiol pan fo'n briodol.
- Deall profiad unigolion a gofawyr
- Adnabod ac adrodd ar arfer da.

Cyflwyniad

Mae gan Gyngor Caerdydd (y Cyngor) a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (y BIP) drefniadau ar y cyd i reoli eu cyfrifoldebau am y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, ynghyd â Chyngor Bro Morgannwg. Mae'r rhain wedi bodoli ers cyflwyno'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn 2009 ac maent wedi'u lleoli yn Swyddfeydd Cyngor Bro Morgannwg yn y Barri. Mae'r tîm yn cynnwys 1 gweinyddwr llawn-amser a 2 Gydgysylltydd llawn-amser ar gyfer y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid/y Ddeddf Galluedd Meddyliol.

Cyngor Bro Morgannwg sydd â chyfrifoldeb gweithredol am y tîm trwy grŵp llywio teiran sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob un o'r 3 sefydliad. Y Rheolwr Gweithredol ar gyfer Iechyd Meddwl, a gyflogir gan Gyngor Bro Morgannwg, sy'n meddu ar gyfrifoldeb rheoli o ddydd i ddydd am y tîm ar ran Bwrdd Partneriaeth y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Prif swyddogaethau'r tîm yw: -

- Cydgysylltu a goruchwyllo Aseswyr Budd Pennaf
- Cyngor a chymorth i dimau iechyd a gofal cymdeithasol mewn perthynas â'r Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid
- Darparu hyfforddiant ar gyfer awdurdodau rheoli, cartrefi gofal ac ysbytai

1. Ansawdd Ceisiadau ac Asesu

Caiff y weithred o ganfod achosion presennol a phosibl o golli rhyddid gan awdurdodau rheoli mewn cartrefi gofal yng Nghaerdydd a cheisiadau o ganlyniad eu sbarduno fel arfer gan yr awdurdod rheoli ei hun a chaiff rhai eu sbarduno ar yr adeg y caiff y lleoliad ei drefnu gan y Gweithiwr Cymdeithasol dan sylw. Fodd bynnag, roedd nifer y ceisiadau ar y cyfan yn isel iawn o ystyried nifer ac ystod y cartrefi gofal yn ardal Cyngor Caerdydd. Yn 2013/14 cafodd y Cyngor 24 cais a chafodd y BIP 54.

Ar y cyfan, roedd ansawdd y ceisiadau gan Awdurdodau Rheoli a welwyd yn ddigonol ond roedd diffyg manylder a chywirdeb a bylchau o ran gwybodaeth mewn rhai. Mae hyn yn dynodi nad yw'r awdurdodau rheoli dan sylw'n deall y broses yn llawn ac mae rhai'n anghyfarwydd â'r ddogfennaeth. Mae cydgysylltwyr y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn sgrinio'r holl geisiadau a gwaith papur ategol ac yn tybio ei bod yn well derbyn ceisiadau a gweithredu arnynt, yn hytrach na'u bod yn berffaith ym mhob achos. Felly nid oedd asesiadau wastad yn cael eu cwblhau fel sy'n ofynnol yn ôl y Cod Ymarfer ar gyfer y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid e.e. opsiynau heb gael eu dileu fel y bo'n briodol a dyddiadau yn eisiau. Gallai'r hepgoriadau hyn beri i geisiadau unigol fod yn annilys, a allai yn ei dro olygu bod rhai pobl yn colli eu rhyddid mewn modd anghyfreithlon ar adeg benodol.

Dim ond dealltwriaeth gyfyngedig oedd gan staff asesu a rheoli gofal y Cyngor am eu cyfrifoldeb i ganfod achosion yr oedd angen eu hawdurdodi dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid trwy adolygiadau neu fel achosion y gall fod angen eu hawdurdodi dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid wrth leoli pobl mewn cartref gofal. Fodd bynnag roedd y grŵp yn fach mewn nifer ac nid oedd yn cynnwys staff o'r Timau Anabledd Dysgu a oedd wedi dangos dealltwriaeth fwy o lawer o'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ar sail unigol trwy'r achosion a archwiliwyd.

Canfu arolygwyr fod dealltwriaeth gyfyngedig am y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ymhlith gweithwyr ieuchyd proffesiynol ar wardiau lle ystyrir bod gan gleifion unigol "alluedd cyfyngedig". Roedd dryswch hefyd ymhlith staff rhwng yr hyn sy'n gyfystyr ag achos o golli rhyddid a'r hyn sy'n cyfateb i gyfyngiad ac ystyrir y cyntaf o'r rhain dim ond os yw'r unigolyn wedi gwneud ymgais i adael yr ysbyty neu wedi mynegi dymuniad i adael safle'r ysbyty cyn cael ei ryddhau'n ffurfiol.

Dywedodd staff y cyfwelwyd â hwy ar draws y BIP ac ym maes gofal cymdeithasol eu bod yn cael y Ddeddf Galluedd Meddyliol yn gymhleth ac yn feichus, yn enwedig y gofyniad i wneud cais newydd bob tro y canfyddir achos y gall fod angen ei awdurdodi dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Fodd bynnag, canfuom fod ymwybyddiaeth staff ar wardiau megis niwroleg a phobl hŷn yn fwy na'r wybodaeth ar wardiau meddygol cyffredinol.

Roedd canfyddiad ymhlith staff, a grybwyllwyd ar sawl achlysur gwahanol, fod y Ddeddf Iechyd Meddwl yn "drech" na'r Ddeddf Galluedd Meddyliol ac y byddai'r gyntaf o'r ddwy wastad yn cael ei defnyddio fel y dewis ddull o ymdrin ag unigolyn y mae angen peri iddo golli ei ryddid. Ategir hyn gan y ffaith nad oedd unrhyw geisiadau am awdurdodiadau dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid wedi cael eu derbyn o wardiau ieuchyd meddwl a lleoliadau gofal, er y dywedwyd wrthym fod pobl a allai fod wedi colli eu rhyddid ac nad oeddent yn ddarostyngedig i'r naill na'r llall.

Roedd cyd-dîm y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn profi heriau o ran gweithredu'n effeithiol oherwydd y gwahanol systemau TG sy'n cael eu defnyddio ar draws sefydliadau Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae ceisiadau'n cael eu ffacsio at dîm y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ac mae'r ffeiliau sy'n ymwneud â phob cais yn cael eu cadw wedyn ar ffeiliau papur. Roedd hyn yn peri anhawster i weithwyr proffesiynol a oedd yn gysylltiedig â gofal unigolion pan oeddent yn ceisio canfod a oedd awdurdodiad dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid wedi'i roi. Mae angen rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod cais am awdurdodiad dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn gallu cael ei amlygu ar draws y gwahanol systemau i alluogi gweithwyr proffesiynol i fod yn ymwybodol o sefyllfa bresennol unigolyn o ran y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Roedd staff mewn ysbytai yn arbennig yn disgrifio'r anawsterau yr oeddent yn eu hwynebu wrth geisio mynediad at beiriannau ffacs 24 awr y dydd sydd wedi arwain at oedi cyn bod ceisiadau'n cyrraedd y Corff Goruchwyliol.

Nid oedd gan yr un o'r staff y cyfwelwyd â hwy brofiad o geisiadau i'r Llys Gwarchod. Dywedwyd fod Tîm y Llys Gwarchod sydd wedi'u lleoli yng Nghaerdydd yn gefnogol iawn ond nid oeddent ar gael ar gyfer cyfweiliad yn ystod yr adolygiad.

2. Ansawdd Canlyniadau

Roedd nifer o'r ceisiadau am awdurdodiadau dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a draciwyd yn gymhleth iawn ac roedd amodau'n gysylltiedig â hwy yn unol ag argymhelliad gan yr Aseswr Budd Pennaf. Fodd bynnag, nid oedd yr awdurdodau rheoli wastad yn deall ei bod yn ofynnol iddynt oruchwylio'r amodau ac nid oeddent yn cael eu hadlewyrchu yng nghynlluniau gofal a chymorth y person perthnasol, gan gynnwys y rhai mewn ysbyty.

Lle'r oedd amodau'n cael eu defnyddio'n briodol, roeddent yn greadigol ac effeithiol iawn o ran lleihau'r achos o golli rhyddid gan gynnwys rhoi cymorth i'r unigolyn gael mynediad at y gymuned, bywyd teuluol a chynyddu ei ddiogelwch. Mewn dau o'r achosion a welwyd roedd amodau penodol iawn wedi cael eu rhoi ar waith ar gyfer oedolion iau yr oedd arnynt angen adnoddau ychwanegol; nid oedd hyn yn cael ei adlewyrchu mewn sefyllfaoedd tebyg ar gyfer oedolion hŷn.

Yr awdurdod rheoli sy'n gyfrifol am fonitro trefniadau gofal a chymorth y person perthnasol i wneud yn siŵr bod y gofynion cymhwyso'n dal yn berthnasol. Fodd bynnag, yn ymarferol roedd yr adolygiadau yn y Cartrefi Gofal yn cael eu hysgogi gan gydgysylltydd y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ac nid oedd adolygiadau rheoli gofal wedi'u hintegreiddio â'r adolygiad o'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Roedd hyn yn cyfyngu ar allu'r Corff Goruchwyliol i ddeall pa mor effeithiol fu'r trefniadau diogelu ac unrhyw amodau a osodwyd o ran lleihau hyd a maint yr achos o golli rhyddid. Yn y BIP dywedodd staff mai dealltwriaeth gyfyngedig oedd ganddynt am broses adolygu'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid; fodd bynnag disgrifiodd Cydgysylltydd y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid gamau a oedd yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â hyn.

Gyda gwasanaethau anabledd dysgu mae rheolwr tîm wrthi'n cael ei neilltuo i adolygu'r holl ddefnyddwyr gwasanaethau i wneud yn siŵr eu bod yn cael y trefniadau gofal y mae eu hangen arnynt. Dywedwyd wrthym fod hyn wedi cael ei adnabod fel cyfle i ystyried materion y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid fel rhan o'r broses, yn enwedig yng ngoleuni Dyfarniad y Goruchaf Lys.

Lle mae awdurdodiad dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid wedi cael ei roi, roedd rheolwyr a staff o fewn cartrefi gofal yn dweud bod hynny wedi eu helpu i gefnogi pobl ag ymddygiad heriol yn fwy effeithiol, gan fod fframwaith cyfreithiol yn bodoli a hwnnw wedi cael ei gytuno gan nifer o weithwyr proffesiynol ac yn un a fyddai'n cael ei adolygu.

3. Cynnwys defnyddwyr gwasanaethau, cleifion a gofalwyr

Ychydig iawn o'r achosion a adolygwyd oedd â Chynrychiolydd Person Perthnasol wedi'i adnabod. Lle'r oedd un wedi cael ei adnabod, roedd y person perthnasol a'r Cynrychiolydd Person Perthnasol wedi cael gwybodaeth am y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ar ffurf taflen a mynediad at gyngor ac arweiniad gan gydgyssylltydd y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Dywedodd staff y BIP fod ganddynt fynediad at fersiwn electronig o becyn gwybodaeth am y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid y gellid ei argraffu ar gyfer cleifion gan gynnwys fersiwn hawdd i'w ddarllen. Fodd bynnag, nid oedd yr holl staff y cyfwelwyd â hwy yn ymwybodol o'r adnodd hwn.

Roedd y cynrychiolwyr rhanddeiliaid y cyfwelwyd â hwy yn dod o'r trydydd sector a nifer cyfyngedig ohonynt oedd. Ymwybyddiaeth gyfyngedig oedd ganddynt o'r Ddeddf Galluedd Meddyliol ac ychydig o wybodaeth neu brofiad uniongyrchol oedd ganddynt o'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

Roedd tystiolaeth bod anghenion diwylliannol wedi cael eu hadnabod ac yn cael eu hadlewyrchu yn yr asesiad a'r cynlluniau gofal a chymorth. Roedd person â nam ar ei glyw wedi cael cymorth priodol i'w helpu i ddeall y cais am awdurdodiad dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid gan yr Aseswr Budd Pennaf yn yr ysbyty. Mae proses gwynion ar gyfer tîm y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid fel rhan o'r cytundeb gwasanaeth ond ni welsom unrhyw wybodaeth am gwynion unigol nac unrhyw ddata. Datganodd y Cyfarwyddwr Iechyd a Gofal Cymdeithasol y byddai hi a'i phartneriaid yn y bwrdd rheoli teiran yn ystyried unrhyw gwynion, ond na fu unrhyw gwynion hyd y gwyddai hi.

4. Ansawdd y Gweithlu

Mae Cydgysylltydd y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ar gyfer Caerdydd yn wybodus ac yn brofiadol ac mae ei chynngor a'i chefnogaeth yn cael eu gwerthfawrogi gan yr Awdurdodau Rheoli y siaradon ni gyda hwy. Ar adeg yr arolygiad hwn roedd swydd yr ail Gydgyssylltydd ar gyfer y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn wag ac roedd yn anrffod bod hyn wedi rhoi pwysau ychwanegol ar ddeiliad y swydd gyntaf. Roedd y broses recriwtio i lenwi'r swydd wedi dechrau.

Dealltwriaeth gyfyngedig iawn sydd gan Awdurdodau Rheoli unigol yng Nghaerdydd am y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ac ymddengys eu bod yn dibynnu'n helaeth ar Gydgyssylltydd y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid i'w cefnogi trwy'r broses. Tystiolaeth gyfyngedig oedd eu bod yn deall pwrpas y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid y tu hwnt i allu atal rhywun rhag gadael y safle er mwyn ei ddiogelwch ei hun.

Mae tîm y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn achub ar gyfleoedd i amlygu arfer da ac yn anfon diweddariadau ar draws y Cyngor a'r BILL. Mae taflenni'n cael eu dosbarthu i'r Rheolwyr Cofrestredig ac mae arolwg o'r holl ddarparwyr cartrefi gofal wedi cael ei gynnal i ofyn am wybodaeth a'u gwahodd i gadw mewn cysylltiad â thîm y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ynglŷn ag anghenion hyfforddiant a hefyd i gael cymorth a chynghor mewn perthynas â'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

Mae gan wasanaeth Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid Caerdydd a'r Fro fynediad at 23 Aseswr Budd Pennaf yr oeddent hwy'n ystyried eu bod yn ddigonol ar gyfer nifer y ceisiadau ar adeg yr arolygiad. Roedd cefndir proffesiynol Aseswyr Budd Pennaf yn y GIG yn bennaf ac yn cynnwys profiad eang o feysydd Seicoleg, Therapi Galwedigaethol, Nyrsio a Gwaith Cymdeithasol. Roeddent i gyd yn ymrwymedig iawn i rôl Aseswr Budd Pennaf sy'n darparu adnodd cryf iawn a phroffesiynol cyfoethog ar gyfer cyflawni swyddogaethau'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yng Nghaerdydd.

Dim ond unwaith y mis y byddai angen Aseswyr Budd Pennaf fel arfer i gynnal asesiadau. Mae hyn wedi bod yn bryder yn flaenorol mewn perthynas â chynnal eu sgiliau ar gyfer gwaith Aseswyr Budd Pennaf. Yn ôl yr Aseswyr Budd Pennaf, os nad oes mo'u hangen i wneud gwaith tra'u bod ar y rota, bydd rhai ohonynt yn gwirfoddoli pan fo angen asesiad er mwyn iddynt allu cynnal a datblygu eu profiad.

Lle mae Aseswyr Budd Pennaf i'w cael mewn tîm iechyd neu ofal cymdeithasol, ceir tystiolaeth bod hyn yn codi ymwybyddiaeth pawb o'r Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ac maent yn gweithredu fel adnodd arbenigol ar gyfer y tîm. Er enghraifft, mae Aseswyr Budd Pennaf yn y timau Anabledd Dysgu sy'n meddu ar lefel uchel o arbenigedd ac sy'n darparu cynghor ar gyfer aelodau eraill o'r tîm ynghylch y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Mae Aseswyr Budd Pennaf yn cael eu recriwtio ar sail wirfoddol ac yn ei weld fel cyfle ar gyfer datblygiad proffesiynol. Yn y gorffennol mae wedi profi'n anodd recriwtio Aseswyr Budd Pennaf gan fod y rôl yn cael ei hystyried yn un sy'n "ychwanegiad" at eu prif rôl a chan fod rhaid iddynt gael eu rhyddhau o'u cyfrifoldebau eraill. Dywedodd yr Aseswyr Budd Pennaf y cyfwelwyd â hwy fod gan Ymarferwyr Iechyd Meddwl Cymeradwy fynediad at fwy o hyfforddiant a chymorth nag Aseswyr Budd Pennaf.

Mae nifer yr atgyfeiriadau at y gwasanaeth Eiriolaeth Galluedd Meddwl Annibynnol yn isel iawn o'i gymharu â nifer y ceisiadau am awdurdodiadau dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a gweithgarwch mewn ardaloedd eraill yng Nghymru. Roedd atgyfeiriadau'n dod o wasanaeth y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid neu oddi wrth yr Aseswyr Budd Pennaf ond ceir canfyddiad, a fynegwyd gan yr Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol, nad yw eu rôl yn cael ei hyrwyddo'n weithredol.

Mae tîm y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn cynnig hyfforddiant i staff mewn cartrefi gofal, timau'r gwasanaethau cymdeithasol ac ysbytai. Yn

2013/14 roedd dros 300 o staff mewn cartrefi gofal wedi cael hyfforddiant, ond dim ond 22 o staff mewn ysbytai ledled Caerdydd a Bro Morgannwg oedd wedi manteisio ar y cynnig. Nid oedd mynediad at gyngor a hyfforddiant o fewn yr awdurdodau rheoli eu hunain yn amlwg ac nid oedd yn orfodol yn y BIP. Fodd bynnag, roedd y BIP yn ceisio mynediad at gydgyssylltydd y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a hefyd yr Aseswyr Budd Pennaf ac fe ddywedon nhw eu bod wedi darparu cyngor a gwybodaeth ardderchog.

Ni threfnwyd fod y Cod Ymarfer ar gael i staff yng Nghyngor Caerdydd ac mae'n rhaid iddynt geisio mynediad at eu copiâu eu hunain a'u prynu, os oes angen. Darparwyd hyfforddiant ar gyfer staff y gwasanaethau cymdeithasol pan gyflwynwyd y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn 2009, ond ers hynny mae wedi bod yn cael ei ddarparu ar sail fwy ad hoc gyda chydgyssylltwyr y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn mynychu cyfarfodydd tîm, ac roedd 78 o staff wedi cael rhyw lefel o hyfforddiant yn y ffordd yma. Roedd y Cod Ymarfer hefyd ar gael i staff yn y BIP dros y Rhyngwyd.

5. Arweinyddiaeth a llywodraethu

Roedd adroddiadau blynyddol ar y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid wedi cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Partneriaeth Strategol; fodd bynnag maent wedi bod yn canolbwyntio ar weithgarwch ac nid ar ganlyniadau. Fe wnaeth tîm y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ddisgrifio'r trefniadau ar gyfer adrodd wrth Bwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl y BIP hefyd, gan ddatgan bod hyn yn rhoi proffil uwch iddynt. Mae gan y BIP drefniadau i wahanu ei gyfrifoldebau fel awdurdod rheoli ar lefel wardiau/gwasanaethau oddi wrth ei gyfrifoldebau fel corff goruchwyliol ar lefel weithredol.

Mae archwiliad mewnol o berfformiad tîm y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ac ansawdd asesiadau wedi cael ei gynnal gan y Rheolwr sy'n gyfrifol am y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ac mae cynllun gweithredu drafft wedi cael ei gynhyrchu. Roedd hwn wedi'i fwriadu i fynd i'r afael â'r galwadau yn y dyfodol ond roedd yn cynnwys amserlenni uchelgeisiol iawn ac i'w weld fel pe bai'n dibynnu ar y Rheolwr presennol a Chydgyssylltwyr presennol y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid i gyflawni'r camau gweithredu heb unrhyw adnodd ychwanegol. Mae Cyfarwyddwr Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Cyngor hefyd wedi gosod y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ar y gofrestr risgiau corfforaethol a hoffai weld dealltwriaeth well am y materion o fewn y bwrdd gweithredol a threfniadau llywodraethu cryfach ar draws meysydd iechyd a gofal cymdeithasol.

Nid yw'r fanyleb gwasanaeth bresennol ar gyfer gofal preswyl, gofal nyrsio a gofal iechyd parhaus yn ei gwneud yn ofynnol i staff mewn sefydliadau darparu fod wedi'u hyfforddi yn y Ddeddf Galluedd Meddyliol na'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Roedd y Cyfarwyddwr Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gyfarwydd â'r Cod Ymarfer a'i ofynion a sut yr oeddent yn berthnasol i'r trefniadau yng Nghaerdydd.

Nid oes gan y Cyngor ofal preswyl a ddarperir yn uniongyrchol; fodd bynnag mae ganddo lety byw â chymorth a ddarperir yn uniongyrchol, a'r Cyfarwyddwr Iechyd a Gofal Cymdeithasol yw'r Unigolyn Cyfrifol. Er mwyn cydymffurfio â'r gofyniad yn y Cod Ymarfer ar gyfer gwahanu'r rôl fel Corff Goruchwyliol oddi wrth y rôl fel Awdurdod Rheoli, mae'r Cyfarwyddwr wedi gwneud trefniadau i Gyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol oruchwylio unrhyw faterion yn y dyfodol o ran colli rhyddid a allai ddod trwy'r Llys Gwarchod mewn llety â chymorth.

Mae'r trefniadau gwasanaeth ar y cyd ar gyfer tîm y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid wedi galluogi'r tri chorff goruchwyliol i sicrhau bod adnoddau digonol yn cael eu rhoi ar waith i dderbyn ceisiadau a chwblhau asesiadau'n brydlon. Fodd bynnag, mae angen i'r camau dilynol mewn perthynas ag achosion unigol ar ôl awdurdodiad trwy dimau rheoli gofal gael eu datblygu ymhellach ac mae angen cysylltiad cryfach hefyd ag adolygiadau rheoli gofal. Mae timau aml-ddisgyblaethol, e.e. iechyd meddwl, anabledd dysgu a rhyddhau o'r ysbyty, a allai hwyluso hyn ond nid yw'r Ddeddf Galluedd Meddyliol wedi'i sefydlu fel rhan annatod o'u harferion gweithio.

ARGYMHELLION: -

1. Wrth adolygu adnoddau gwasanaeth y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a'r gallu o ran Aseswyr Budd Pennaf yng ngoleuni dyfarniad y Goruchaf Lys, dylai'r Cyngor ddatblygu strategaeth sy'n sicrhau bod swyddogaeth yr Aseswyr Budd Pennaf yn cael ei sefydlu yn yr holl wasanaethau a thimau oedolion ac yn cael ei sefydlu fel rhan annatod o asesiadau ac adolygiadau.
2. Dylai'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod hyfforddiant ar y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ar gyfer rheolwyr a staff ym mhob lleoliad iechyd a gofal cymdeithasol perthnasol yn cael ei wneud yn orfodol. Dylent adlewyrchu'r gofyniad am hyfforddiant gorfodol yn eu contractau gydag awdurdodau rheoli ac archwilio effeithiolrwydd yr hyfforddiant hwn.
3. Dylai'r Cyngor a'r BIP ddatblygu trefniadau a phrosesau ar y cyd sy'n cefnogi'r broses o ddarparu gwasanaeth y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn effeithiol gan gynnwys sicrhau ansawdd ceisiadau a sicrhau bod statws unigolyn dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn hysbys i'r gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gydag ef.
4. Dylai'r Cyngor a'r BIP ddatblygu gwybodaeth ac offer ar gyfer eu staff sy'n hybu gwell dealltwriaeth am rôl yr Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol a phryd y dylid ei ddefnyddio.
5. Dylai'r Cyngor a'r BIP sicrhau bod Cynrychiolwyr Person Perthnasol wastad yn cael eu penodi lle y bo'n bosibl ac yn cael eu cefnogi'n briodol yn eu rôl.

6. Dylai gallu tîm y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid gael ei adolygu gan y Cyngor, y BIP a phartneriaid i sicrhau bod ganddo'r adnoddau i ateb y galw a chyflawni'r ystod o swyddogaethau y mae'n eu darparu, yn enwedig yng ngoleuni Dyfarniad y Goruchaf Lys.
7. Dylai'r Cyngor a'r Bwrdd lechyd adolygu'r modd y maent yn ymgysylltu â phersonau perthnasol, eu teuluoedd a gofalwyr anffurfiol a gweithredu adborth ar eglurder yr wybodaeth sydd eisoes ar gael. Dylent gynnwys manylion o ran sut i gyfleu canmolïaeth, pryderon a chwynion.